COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2 A 3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH 12 MAWRTH 2024 AM 14:30

Yn Bresennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | JPD Blundell | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog y Gwasanaethau Rheoliadol, AD a Chyfreithiol |
| Julie Ellams | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Anya Richards | Rheolwr Grŵp Dros Dro Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus |

Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd Neelo Farr fuddiant personol yn eitem 13, Polisi Trafnidiaeth Cartref i'r Ysgol/Coleg

## 301. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20.02.2024 fel rhai gwir a chywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 302. Canlyniad yr Ymgynghoriad ar y Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu Ddrafft

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Nododd y Cabinet ganlyniad yr ymgynghoriad a chymeradwyo'r Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu sydd ynghlwm fel Atodiad B i'r adroddiad i'w gyhoeddi |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 303. Datganiad Sefyllfa Tai a Digartrefedd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet: • nodi cynnwys yr adroddiad;<br>• cymeradwyo caffael eiddo ar ffurf Tai Amlfeddiannaeth (HMO) a oedd o fewn amcangyfrifon cyfalaf cymeradwy'r Cyngor at y diben o ddarparu llety dros dro yn amodol ar bob diwydrwydd dyladwy rhesymol a chyngor cyfreithiol;<br>• cytuno i atal rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor (RhGGau) o ran y gofyniad i dendro am gontract a dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Partneriaethau a Thai ymrwymo i Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr llety presennol am gyfnod o 'hyd at' 12 mis er mwyn parhau i ddarparu llety dros dro ychwanegol yn ôl yr angen i fodloni dyletswyddau statudol y Cyngor;<br>• dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Partneriaethau a Thai gymeradwyo telerau terfynol y Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar ran y Cyngor a threfnu gweithredu'r cytundebau ar ran y Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol;<br>• nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ynghylch llety dros dro.<br>• gofyn am gyflwyno adroddiad pellach ar y Grant Tai Cymdeithasol i'r Cabinet. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 304. Asesiad o’r Farchnad Dai Leol 2024

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• cymeradwyo AFDL 2024 (Atodiad 1 i'r adroddiad) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br>• gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cyflwyniad, ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 305. Ardrethi Annomestig: Rhyddhad yn ôl Disgresiwn: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Mabwysiadodd y Cabinet y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer 2024-25 fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 306. Defnydd Arfaethedig O Brotocol Trosglwyddo Trafodion Tir gyda Phrifddinas-ranbarth Caerdydd ar gyfer Tir ym Mrynmenyn a Bryncethin

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>1.Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r gofynion statudol ar gyfer caniatâd cynllunio ac amrywiol drwyddedau, a oedd y tu allan i'r Protocol Trosglwyddo Trafodion Tir.<br>2.Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol a'r Prif Swyddog, Cyllid, Tai a Newid, ddrafftio ac ymrwymo i'r Cytundeb Opsiwn gyda P-RC/CBC yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn yr adroddiad hwn, a chytunwyd ar brisiad y tir a'r amodau.<br>3. Cytunwyd bod unrhyw dderbyniad cyfalaf a dderbynnir gan y Cyngor, yn cael gwarchodaeth wedi'i chlustnodi tan ei bod yn amlwg y bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen, er mwyn sicrhau bod arian ar gael pe bai'r tir yn cael ei ddychwelyd i berchnogaeth y Cyngor.<br>4. Cytunwyd y bydd adroddiad dilynol yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Cabinet os na fydd y Cytundeb Opsiwn neu'r prosiect yn mynd rhagddo, er mwyn gallu dychwelyd y tir i'r Cyngor am y gwerth y cytunwyd arno |

| | |
|---|---|
| | pan y'i gwaredwyd ac fel y gellir cytuno ar benderfyniad ar ddyfodol y ddau barsel o dir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**307. Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Bu'r Cabinet yn ystyried ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiadau 1 a 2, gan gydnabod y gwaith cadarnhaol y mae gwasanaethau llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i gyflawni hyd yma o ran Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**308. Gweithdrefn ar gyfer Penodi a Dileu Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• cymeradwyo'r weithdrefn ar gyfer penodi a dileu llywodraethwyr awdurdodau lleol fel y crynhoir ym mharagraffau 3.1-3.5 ac a nodir yn Atodiad A yr adroddiad<br>• Cymeradwyo'r diwygiad i'r Cynllun Dirprwyo fel y nodir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.<br>• cytunwyd y dylai manylion yr ymgeiswyr fod yn ddienw. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**309. Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau a nodwyd ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**310. Polisi Derbyn i Ysgolion 2025-26**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet Bolisi Derbyn i Ysgolion 2025-2026 yn Atodiad A yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

**311. Polisi Trafnidiaeth O'r Cartref I'r Ysgol/Coleg**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet ymgynghoriad 12 wythnos ar y cynigion canlynol:<br><br>• Dileu trafnidiaeth gwaddol ar gyfer pob dysgwr sy'n elwa o lwybr cerdded sydd ar gael ac wedi ei nodi (diogel) i allu mynd i'r ysgol, i gyd-fynd â'r pellteroedd statudol o ddwy filltir i ddisgyblion oed cynradd a thair milltir ar gyfer disgyblion oed uwchradd.<br><br>• Cael gwared ar warchodaeth gwaddol 'brawd/chwaer' i ddisgyblion.<br><br>• Dileu'r holl drafnidiaeth ar gyfer disgyblion meithrin (ac eithrio disgyblion sy'n mynychu eu hysgol Gymraeg neu ysgol ffydd addas agosaf).<br><br>• Dileu'r holl gludiant Ôl-16 ac eithrio disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion canlynol:<br>o Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd<br>o Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath; a<br>o Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf.<br><br>• Cynnig i rieni/gofalwyr disgyblion ag ADY yr opsiwn o 'gyllideb cludiant personol' yn darparu lwfans milltiredd o 45c y filltir. |
| Dyddiad Gwneud y | 12 Mawrth 2024 |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | |

## 312. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cydnabu'r Cabinet gyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 313. Blaenraglenni Gwaith y Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cabinet:<br>• Cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2024 i 30 Mehefin 2024 yn Atodiad 1;<br>• Nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am yr un cyfnod, fel y dangosir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad, yn y drefn honno. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

## 314. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 12 Mawrth 2024 |

I wylio trafod pellach a ddigwyddodd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 17:44.